CYNGOR CYMUNED BETWS

2009 11 Tachwedd Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol Cyngor Cymuned y Betws yn Festri Capel Newydd, y Betws ar ddydd Mercher y 11eg o Dachwedd 2009 am 7.00 yr hwyr.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Betsan Jones (Cadeiryddes), Henadur Arnallt James, Y Cynghorwyr Loreen Lewis, June Gunter, Carwyn James, Anthony Richards, Anne Sizmur, Menna Roberts, Richard Howell, Maldwyn John ac Annette Price.

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwr Catherine Smith, Y Cynghorwr Sir Audrey Jones a PC Kevin Jones.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Fe ddatganodd y Clerc fod ei thad wedi symud i Ffordd y Glowyr, Betws.

1. I DDARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 14eg O HYDREF 2009.
Roedd gan y Cynghorwr Annette Price y newidiadau canlynol i'w wneud:-
2.3 Roedd y Cynghorwyr wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Cynghorwyr ac nid o'r safle.
4.3 Nid oedd y Cynghorwyr wedi gwrthwynebu'r cais cynllunio.
10.3 Roedd y Cynghorwyr am gopi o'r costiai ynglyn â'r rhan ychwanegol y Parc.
10.5 Llythyr I'r Adran Cynllunio ac I Mark James, mae hyn yn fater iechyd a diogelwch.
Roedd gan y Cynghorwr Betsan Jones y newid canlynol i'w wneud:-
3.1 Delai dweud Glan Yr Afon.
Roedd gan y Cynghorwr Loreen Lewis y newid canlynol i'w wneud:-
6. Roedd Cyngor Cymuned y Betws yn pryderu ynglyn â 2 tractor o fewn Betws.

Cadarnhaodd y Cynghorwr Anne Sizmur y newidiadau ac fe eiliodd y Cynghorwr Betsan Jones. Cadarnhaodd y Cynghorwr Richard Howell ac eiliodd y Cynghorwr Loreen Lewis fod cofnodion cyfarfod y 14eg o Hydref 2009 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Gadeiryddes.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Bwrdd Hysbysu'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerk wrth y Cynghorwyr nid yw hi wedi derbyn ymateb yw llythyr ynglyn â rhoi golau uwch ben y bwrdd hysbysu. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr fod gan Ysgol Gynradd Betws allwedd i fwrdd hysbysu'r Cyngor Cymuned.

2.2 Tyrbinau Gwynt.
Dywedodd y Clerc nid yw hi wedi derbyn ymateb wrth ECO2 hyd yn hyn. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr for y Clerc yn erlid y mater hwn. Hefyd awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Clerc yn ysgrifennu at ECO2 i ofyn a gallant ddanfon cynrychiolydd i gwrdd gyda'r Cynghorwyr. Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os delai aelodau o'r cyhoedd ymglymedig. Dywedodd y Cynghorwr Betsan Jones I ddechrau dim o'n cynrychiolydd o Gyngor Cymuned y Betws.

2.3 Llwybrau Troed.
Darllenodd y Clerc nifer o e-byst wrth Nigel Powel ac Gary Carlsen o Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â llwybrau troed o fewn Betws. Dywedodd y Cynghorwr Annette Price yn cyfarfod

diweddar gyda swyddogion o Gyngor Sir Caerfyrddin gofynnodd a oedd llwybrau troed yn gallu cael ei ddefnyddio fel llwybr ceffyl, ac na oedd yr ymateb. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Bennaeth Hamdden a Chwaraeon I ddweud nid yw Gary Carlsen yn fodlon cael cyfarfod gyda'r Cynghorwyr.

Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn ymateb wrth Asiantaeth yr Amgylchedd ynglyn â'r boncyff yn yr afon ar lwybr troed 3/11. A dywedwyd yn anffodus nid maen nhw'n gyfrifol am y mater hwn, fydd rhaid cyfeirio hyn at berchennog y tir? PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin I ofyn pwy sy'n berchen y tir.

2.4 Adeilad Fictoraidd, Heol Maescware, Betws.
Fe roddodd y Cynghorwr Menna Roberts lluniau o'r adeilad Fictoraidd i'r Clerc. Mae rhaid i'r Cynghorwr Annette Price ddarparu fwy o wybodaeth ar yr adeilad i'r Clerc. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.5 Lle Chwarae Treforis a Lle Chwarae Heol y Felin.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hi wedi derbyn ymateb hyd yn hyn wrth Clare Tinkler o Gyngor Sir Caerfyrddin. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

2.6 Arian Adran 106.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hi wedi derbyn ymateb wrth TRJ hyd yn hyn. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

2.7 Newid Enw - Bryncelyn, Heol Maescware.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn ymateb wrth Gyngor Sir Caerfyrddin a dywedwyd fel awdurdod lleol nid oes ganddynt bwer ynglyn ag enwi eiddo unigol. Mae enwau sy'n cael ei awgrymu yn cael ei dderbyn yn fwyafrif o achosion. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.8 Ystâd Tai Treforis.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn ymateb wrth Gyngor Sir Caerfyrddin a dywedwyd nid maen nhw wedi galli adnabod nifer o gerbydau sgrap neu gerbydau sydd heb gael ei ddefnyddio yn yr ystâd heblaw am un ty sy'n dy preifat. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.9 Taith Bws Cyngor Cymuned y Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi nodi pris wrth cwnioedd bysiau ynglyn â thaith i Gaerdydd a Bath. Dywedodd y Cynghorwr Carwyn James wrth y Cynghorwyr cyn bod penderfyniad yn cael ei wneud delai'r Clerc ategu gydag Un Llais I Gymru. Cytunwyd y Cynghorwyr.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
Awdurdod Heddlu Dyfed Powys – Cynllun Plismona 2010/13.
Awdurdod Heddlu Dyfed Powys – Cyfarfodydd Ymgynghorol Cymunedol Tachwedd/Rhagfyr 2009.
Llywodraeth Cynulliad Cymru – Ymgynghoriad: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 – Canllawiau Statudol.
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Bwletin Ffliw Moch – rhoddwyd i Gynghorwr Annette Price.
Ffair Gyllid.
Cynllun Gweithredu Blynyddol 2010-2011 a Chynllun Gwella 2009-2010 Awdurdod Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Cymorth I Fenywod Dyffryn Aman – Adroddiad Blynyddol – PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod yr Is-bwyllgor Ariannol yn edrych ar hyn yn eu cyfarfod nesaf.

Cyngor Sir Caerfyrddin - Cynllun Datblygiad Lleol - rhoddwyd I Gynghorwr Anne Sizmur I gael eu cylchlythyru ymysg y Cynghorwyr - rhoi ar Agenda am y Cyfarfod ym mis Rhagfyr.

4. MATERION CYNLLUNIO.
Trafodwyd y Cynghorwr Anne Sizmur y ceisiai cynllunio a dderbyniwyd gyda'r Cynghorwyr.

4.1 Nid oedd gan Gyngor Cymuned y Betws unrhyw wrthwynebiadau i wneud ynglyn ar isod:-
E/21922 – Symudiad o amod cynllunio rhif 7, at 22 Golwg Y Mynydd, Betws (17-2009/10).

4.2 Mae eisiau fwy o wybodaeth ar Gyngor Cymuned y Betws ynglyn â mynediad i'r cais cynllunio isod:-
E/21923 - Adeiladu un bungalow gyda 3 ystafell wely ac un bungalow gyda 2 ystafell wely at Barc Bwtrimawr, Betws (18-2009/10).

4.3 Mae'r cais cynllunio isod yn cael ei drafod gyda'r Is-bwyllgor Cynllunio o Gyngor Sir Caerfyrddin:-
E/21871 - Adeiladu adeilad amaethyddol, stablau a phadog ger Gwaith Glo'r Betws (19/2009/10).

4.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniataid i'r ceisiai cynllunio isod:-
E/21721 – Amrywiad o amod 1 i ymestyn yr amser i ddanfon materion ar gadw am 24 mis pellach, ger Gwaith Glo'r Betws, Betws (14-2009/10).
E/21839 - Amrywiad o amod 2 i newid cynlluniau sydd wedi cael ei brofi, ger Tyn Y Cwm, Garnswllt, Rhydaman (16-2009/10).
E/20333 - Rhyddhau amod 14 o gais cynllunio ger Wasieri Glyncywarch, Betws (12-2009/10).
E/20841 - Rhyddhau amod 19 o gais cynllunio ger Wasieri Glyncywarch, Betws (13-2009/10).

5. CYFRIFON.
5.1 Archwiliad Allanol.
Dywedodd y Clerc fod yr archwiliad allanol am y flwyddyn 31ain o Fawrth 2009, wedi ei cwblha ar y 4ydd o Fedi 2009 ac nid oedd unrhyw bwynt i'w godi. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

5.2 Taliadau.
1.Cyngor Sir Caerfyrddin (bwrdd hysbysu'r Cyngor Cymuned) £172.50
2.BDO LLP (Archwiliad Allanol) £155.25
3.Apêl Pabi (Torch Coffa) £40.00
4.Un Llais I Gymru (Cwrs hyfforddi) 25.00
Cyfanswm £392.75
PENDERFYNODD y Cynghorwyr i dalu'r biliau uchod.

Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi agor cyfrif gyda SET (Abertawe) a fydd hi'n prynu offer swyddfa wrth y cyflenwr rhad. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Nid oedd PC Kevin Jones yn gallu fod yn bresennol yn Cyfarfod y Cyngor Cymuned.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Nid oedd y Cynghorwr Sir Audrey Jones yn gallu fod yn bresennol yn Cyfarfod y Cyngor Cymuned.

Adroddodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi bod yn bresennol yn Cyfarfod Cyngor Sir Caerfyrddin, dywedwyd fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ennill gwobr platinwm am hybu

bwyd ac yr amgylchedd.

Dywedodd y Cynghorwr Anthony Richards wrth y Cynghorwyr ei fod ef wedi danfon sawl e-bost at Gynghorwr Sir Audrey Jones ynglyn ag amrywiol o faterion, mae ef wedi derbyn nodyn byr wrthi heddiw:-
1.Maes Yr Yrfa - Plant o Fetws.
2.Biniau - Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyflenwi biniau, maen nhw dim ond yn cyflenwi biniau gwyrdd a brown.
3.Pris Bagiau Ailgylchu – Mae bagiau glas ailgylchu yn ddi-dâl.
4.Biniau Compost bins - yn gallu cael i brynu yn Rhydaman a Llandeilo, y gost yw £10, ond mae yna restr aros o 6 wythnos.
5.Arwyddion ar ben y mynydd - Mae'n aros am ymateb wrth Mario Cresci. Mae eisiau I Gyngor Sir Caerfyrddin symud yr arwyddion lawr at Fetws ar waelod Heol y Mynydd.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod yna problem gydag Abertawe rhai blynyddoedd yn nol, ac nid oeddynt yn fodlon cyfateb gyda Chyngor Sir Caerfyrddin. Awgrymodd hi fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Dref Abertawe, Adran y Briffordd, I ddweud wrthynt nid yw'r hewl yn addas i gerbydau nwyddau trwm.

Roedd y Cynghorwr Anthony Richards yn siomedig dros ben oherwydd nid yw'r Cynghorwr Sir Audrey Jones wedi ymateb yw ymholiadau. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu gyda Gwasanaeth Democratig o Gyngor Sir Caerfyrddin I ofyn am gopi o broffil swydd y Cynghorwr Sir.

8. CANU CAROLAU.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi siarad gyda Phennaeth Ysgol Gynradd Betws, sydd wedi cadarnhau bod y plant yn gallu fod yn bresennol yn canu carolau, a bod eu rhieni yn fodlon. Hefyd dywedodd y Cynghorwr Loreen Lewis ei bod hi wedi siarad gyda menyw sy'n fodlon agor yr Eglwys. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu gyda'r Ficer i weld os gall y Cyngor Cymuned cynnal canu carolau o amgylch y goeden tu allan i'r Eglwys.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Gwasanaeth Coffa.
Dywedodd y Cynghorwr Betsan Jones wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi rhoi torch coffa ym Mharc Rhydaman dydd Sul diwethaf yn y Gwasanaeth Coffa, hefyd mae hi wedi rhoi torch coffa yng Ngardd Coffa ym Mharc y Betws.

9.2 Heol Rheilffordd, Rhydaman.
Dywedodd y Cynghorwr Annette Price wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn nifer o gwynion wrth breswylwyr ynglyn ar amser mae'n cymryd i fynd o Fetws I'r cylchfan ar Heol Foundry a hefyd i'r cylchfan ger Tesco. A oes yn unrhyw bosibilrwydd o agos Heol Rheilffordd I Rydaman? PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

9.3 Nantyffin ar Heol y Cyrnol.
Dangosodd y Cynghorwr Annette Price lluniau i'r Cynghorwyr o lori yn trial cad-drefnu ar Heol y Cyrnol a pa mor agos oedd y lori i'r cerbydau sydd wedi eu parcio. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon copïau o'r lluniau ymlaen at Gyngor Sir Caerfyrddin.

9.4 Cyngor Cymuned y Betws – Cinio Nadolig.
Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price I'r Cynghorwyr os ydynt yn cael Cinio Nadolig blwyddyn hyn. Awgrymodd y Cynghorwr Anthony Richards i gael cinio ym mis Ionawr, eiliodd y Cynghorwr Betsan Jones. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i roi hyn ar Agenda'r Cyfarfod ym mis Rhagfyr.

9.5 Adroddiad y Tyrbinau Gwynt.

Rhoddodd y Cynghorwr Loreen Lewis copi o adroddiad y Tyrbinau Gwynt a dderbyniwyd wrth Dr John D Evans i'r Clerc.

Gorffennodd y Cyfarfod am 9.20 y.p.